Ein Hiechyd Ein Dyfodol | Our Health Our Future

Help us shape the future of health and care in Maesteg



# Diweddariad ar Ganolfan Iechyd a Lles ar gyfer Cwm Llynfi

### Mai 2025

## Dyfodol Iach Maesteg

Trwy bob un o'n cylchlythyrau blaenorol rydym wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am statws presennol ein cynlluniau i ddarparu Canolfan Iechyd a Lles ym Maesteg, gyda ffocws ar ddarparu ystod eang o wasanaethau mewn Ysbyty Cymunedol Maesteg sydd wedi'i hailddatblygu.

Bwriad y cylchlythyr hwn yw rhannu'r sefyllfa bresennol yn ehangach, yn dilyn sesiynau briffio helaeth i randdeiliaid o bob rhan o Gwm Llynfi.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu prosiect Canolfan Iechyd a Lles sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector sy'n diwallu anghenion Cwm Llynfi, gan ystyried beth glywsom gan ein staff a'r gymuned yn ein digwyddiadau ymgysylltu Ionawr a Mai 2023 *(mae adborth o ddigwyddiad Ionawr 2023* ynghlwm).

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, mae Tîm Cronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso Gofal (IRCF) Llywodraeth Cymru wedi cynghori'n gadarnhaol bod arian cyfalaf ar gael ar gyfer datblygu canolfan iechyd a lles yng Nghwm Llynfi, yn amodol ar gymeradwyaeth achosion busnes (a fydd yn cymryd 2 flynedd arall i'w chwblhau).

Gallwn gadarnhau nad yw cyllid ar gyfer y ganolfan iechyd a lles arfaethedig ym Maesteg yn cael ei effeithio gan yr arian a ddarperir i drwsio'r to yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.  Daw'r rhain o wahanol ffynonellau ariannu, er bod pob un o dan reolaeth Llywodraeth Cymru

Yn anffodus, y sefyllfa bresennol yw nad yw'r gyllideb sydd ar gael yn cwmpasu'r gwaith o ailddatblygu angenrheidiol safle presennol Ysbyty Cymunedol Maesteg, sy'n gofyn am lawer o filiynau o bunnoedd yn fwy nag yr oeddem yn rhagweld i'w dychwelyd i adeilad sy'n gallu darparu'r gwasanaethau gofal iechyd modern, hygyrch a diogel y mae'r gymuned yn dweud wrthym eu bod eisiau.

Yn fyr, mae costau ailddatblygu cyffredinol Ysbyty Cymunedol Maesteg ar hyn o bryd 60% dros y cyllid yr ydym yn ei ragweld.  Pe baem yn lleihau costau ailddatblygu yn unol â'r cyllid tebygol sydd ar gael, ni fyddai'n bosibl darparu'r ansawdd a'r math o wasanaethau y mae'r gymuned eu heisiau neu eu hangen arnyn nhw.

Oherwydd, ac fel rhan angenrheidiol o'n proses achos busnes i ddangos ein bod yn darparu gwasanaethau o safon a hygyrch, roedd angen i ni edrych ar ddewisiadau amgen.  Drwy ymgysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar

Ogwr, rydym wedi nodi safle arall o fewn Cwm Llynfi a allai o bosibl ddiwallu anghenion iechyd a lles y gymuned.

Lleolir y safle hwn ar dir yn agos at Heol Ewenni, ger Canol Tref Maesteg, ac ger Gorsaf Reilffordd Heol Ewenni. Mae Kier Construction wrthi'n ystyried hyfywedd y safle newydd posibl i weld a allwn ddarparu bron popeth a nodwyd gan y gymuned ar gyfer y cyllid disgwyliedig sydd ar gael mewn cyfleuster modern, pwrpasol. Mae'r safle hwn hefyd yn darparu opsiynau posibl i ddatblygu'r adeilad ymhellach i gynnal gwasanaethau ychwanegol yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Ganolfan Iechyd a Lles arfaethedig, a fydd o faint rhwng 3,000-3,500M $^2$, yn cynnwys darparu gofal sylfaenol, Canolfan Gofal Brys ar gyfer mân anafiadau a salwch, Adran Allanol wedi'i gryfhau gydag ystod ehangach o arbenigeddau, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol, iechyd integredig ac awdurdodau lleol sy'n cwmpasu gwasanaethau plant ac oedolion, ac ystod o wasanaethau trydydd sector, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor ar Bopeth a Mental Health Matters Wales.

O ran darpariaeth cleifion mewnol, bu newid yng nghyfeiriad Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o ofal yn y cartref, yn hytrach nag yn yr ysbyty ar gyfer cleifion adsefydlu ac ailalluogi. Nid ysbyty o reidrwydd yw'r lle iawn i lawer o'r cleifion hynny a gefnogwyd gynt yn 'Ward Llynfi' yn Ysbyty Maesteg.

Yn aml, gofal yn y gymuned yw'r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd mwyaf diogel a mwyaf effeithiol ar gyfer pobl hŷn ac mae'n cynnwys rhyddhau cyflym a dewisiadau amgen diogel yn lle derbyn i'r ysbyty, fel 'Ysbyty yn y Cartref. ' Yn y bôn, mae hyn yn mynd â'r ysbyty at y claf trwy dîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys meddygon, nyrsys, ffisiotherapydd a therapydd galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae'r newid hwn mewn darpariaeth, ochr yn ochr â'r costau uchel iawn o adeiladu ward newydd a darparu'r lle sylweddol sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau ategol angenrheidiol, fel mannau therapïau a gofynion arlwyo (sy'n gofyn am 1,500M $^2$), yn golygu na fyddwn yn gallu darparu gwelyau cleifion mewnol ym Maesteg.

Rydym yn ymgysylltu â staff o'r hen 'Ward Llynfi' a'r rhai sy'n dal i fod yn Ysbyty Maesteg a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw drwy gydol y broses hon.

O safbwynt mynediad, mae'r safle newydd posibl hwn wedi gwella'n sylweddol opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus a gellir ei gyrchu'n uniongyrchol (ar fws neu'r trên) o bob rhan o Gwm Llynfi ac ymhellach i lawr y rheilffordd i Tondu, Sarn ac Abercynffig. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau sylweddol sydd gan gleifion wrth gael mynediad at wasanaethau ar safle presennol Ysbyty Cymunedol Maesteg, a oedd yn fater allweddol a nodwyd yn ein digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn 2023.

Yn ogystal, os gellir cyflawni'r safle newydd posibl o fewn ein cyllid disgwyliedig sydd ar gael, byddai gwasanaethau'n parhau ar agor yn Ysbyty Cymunedol Maesteg nes bod y Ganolfan Iechyd a Lles newydd wedi'i gorffen, a fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw amhariad ar y gwasanaethau presennol yn lleol.

Rydym yn disgwyl i Kier Construction ddarparu eu hadroddiad dichonoldeb cychwynnol ddiwedd mis Mai 2025.

Nid ydym yn tanamcangyfrif y parch uchel y mae Ysbyty Cymunedol Maesteg a'i sylfaenwyr yn cael ei ddal gan y gymuned a beth bynnag yw'r penderfyniad, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gadw hanes yr adeilad pwysig hwn. Er enghraifft, rydym mewn trafodaethau cynnar gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch Cyfarwyddyd Erthygl 4 posibl a allai gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir yn Ysbyty Maesteg i ddiogelu cymeriad arbennig y safle, a fyddai'n helpu i gadw ffasâd yr ysbyty.

Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd edrych i'r dyfodol i ddarparu'r gwasanaethau modern, integredig sydd eu hangen ar y gymuned heddiw ac am y degawdau o'n blaenau ac nid ydym am i dreftadaeth bwysig yr adeilad fod yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd gwell, mwy diogel a mwy hygyrch y mae pobl Cwm Llynfi eu heisiau ac yn eu haeddu.

*I grynhoi, nid yw ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg yn fforddiadwy, ac nid ydym yn dymuno colli allan ar ddegau o filiynau o bunnoedd o fuddsoddiad yn iechyd a lles Cwm Llynfi.*

*Os gall cyfleuster posibl ar safle newydd ym Maesteg ddarparu canolfan iechyd a lles pwrpasol a fydd yn gwasanaethu buddiannau'r gymuned am y degawdau sydd i ddod, mae'n bwysig ein bod yn edrych yn ofalus i benderfynu a yw'n bosibl.*

Rhaid i ni bwysleisio nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud, ond roeddem am fod yn agored am y sefyllfa bresennol felly nid oes unrhyw bethau annisgwyl i'n cymunedau.

Unwaith y byddwn yn gwybod mwy, byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth ac yn datblygu rhaglen o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys digwyddiadau a gynhelir mewn cymunedau lleol, i ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn rhan o'r buddsoddiad cyffrous, posibl hwn i'w tref a'u hiechyd.

Gofynnwn am eich amynedd wrth i ni barhau i edrych ar yr opsiynau sydd ar agor i ni i ddarparu'r gwasanaethau a nodwyd gennych a'r anghenion a haeddiannau'r gymuned.

## Buddsoddiad parhaus ym Maesteg

Er ein bod yn parhau i adolygu ein dewisiadau, rydym yn dal i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer y presennol yn Ysbyty Cymunedol Maesteg. Rydym wedi moderneiddio ein Ystafell Pelydr-X ym Maesteg gyda'r offer diweddaraf yn dilyn cymeradwyaeth cyllid gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn gweithgareddau uwchraddio terfynol, bydd hwn ar agor 4 bore yr wythnos, a byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth unwaith y bydd yn gwbl agored ac yn weithredol.

Yn ogystal, rydym wedi buddsoddi mewn lle newydd a ddyrannwyd i Feddygfa Bron-Y-Garn yn hen Ward Llynfi. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd roedd dŵr yn dod i mewn ar y llawr cyntaf uwchben y feddygfa, sydd, er gwaethaf ymdrechion lluosog, wedi profi'n anodd mynd i'r afael yn llwyddiannus. Bydd y buddsoddiad bach hwn yn galluogi staff y meddygfa i weithio mewn amgylchedd mwy addas.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol, neu geisiadau am ragor o wybodaeth cyn ein diweddariad nesaf, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni:

- Dale Stolzenberg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Gweithredol - Dale.Stolzenberg@wales.nhs.uk
- Natasha Weeks, Pennaeth Ymgysylltu ac Ymwneud - Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

**Dyddiad briffio nesaf a gynlluniwyd - Gorffennaf 2025**